Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
Cefnogi a hybu'r Gymraeg / Supporting and Promoting the Welsh Language
CWLC(5) SWL47
Ymateb gan Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru / Evidence from Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Cefnogi a hybu'r Gymraeg

Medi 2018

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

## Cefnogi a hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol, polisi ac ehangach

Croesawa UCAC y cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 'Gefnogi a hybu'r Gymraeg'.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

1. **Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 – asesu llwyddiannau a chyfyngiadau canfyddedig y ddeddfwriaeth, ac effaith ac effeithiolrwydd safonau'r Gymraeg wrth wella gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwella mynediad atynt.**

   **Asesu a yw'r fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni ynteu'n cyfyngu ar y gwaith hwn,**

1.1. Roedd cryn dipyn i'w groesawu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan gynnwys rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg, a symud oddi wrth Gynlluniau Iaith aneffeithiol i gyfundrefn â sail statudol.

1.2. Fodd bynnag, barn UCAC yw bod gwendidau sy'n dyddio yn ôl i Ddeddf 1993 ac na heriwyd gan Fesur 2011 sy'n parhau i achosi problemau i unrhyw ddeddfwriaeth arall sydd â goblygiadau i'r Gymraeg mewn amrywiaeth eang o feysydd. Yn naturiol ddigon, daw ein henghreifftiau ni o fyd addysg, ond rydym yn siŵr bod modd dod o hyd i enghreifftiau ym mhob maes polisi datganoledig.

1.3. Un o'r prif meini tramgwydd yw'r rhagdybiaeth sydd wedi plagio unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg (gan gynnwys addysg Gymraeg) ar hyd y blynyddoedd, bod angen ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg yn yr un ffordd – yn hytrach na bod angen **deddfu *o blaid* y Gymraeg er mwyn sicrhau cydraddoldeb a thwf**. Bu i hynny lesteirio ymdrechion i hyrwyddo addysg Gymraeg yn, er enghraifft, y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

**Enghraifft: Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**

1.4. Er cryn trafod ar y pryd, ni fu modd dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru ar y pryd, yn sgil cyngor gan eu cyfreithwyr, y dylid dewis addysg cyfrwng Cymraeg fod yn rhan o'r diffiniad o 'ysgol addas agosaf' yn ôl darpariaethau'r Mesur. Mi fyddai gwneud hynny wedi rhoi cyfrifoldebau statudol ar Awdurdodau Lleol, a hawliau cyfatebol i ddysgwyr a'u rhieni, i ddarparu cludiant am ddim i addysg cyfrwng Cymraeg (yn ddarostyngedig i'r un rheolau ynghylch pellteroedd ag unrhyw ddarpariaeth arall).

1.5. Y 'cyfaddawd' yn y diwedd oedd y cymal enwog (Adran 10) sy'n rhoi cyfrifoldeb i Awdurdodau Lleol 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg'. Canlyniad hynny yw bod cludiant i addysg cyfrwng Cymraeg ar sail disgresiwn Awdurdodau Lleol, sy'n gadael dysgwyr – ac ysgolion - mewn sefyllfa fregus.

1.6. Yr hyn oedd wrth wraidd pryderon y cyfreithwyr oedd y byddai'r gofyniad i ymdrin â'r ddwy iaith yn yr un modd yn golygu rheidrwydd i roi hawliau cyfatebol i rieni - er enghraifft yng Ngwynedd - i ddewis addysg cyfrwng Saesneg fel y diffiniad o 'ysgol addas agosaf' a sicrhau, gan hynny, cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Saesneg, llawer pellach i ffwrdd nag ysgolion cyfrwng Cymraeg.

1.7. Mae UCAC o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyngor cyfreithiol gwangalon iawn yn y gorffennol mewn perthynas â'r hyn sy'n bosib o fewn y gyfraith. Tra bod y geiriad ynghylch 'pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' yn parhau fel yr egwyddor sylfaenol, teimlwn mai parhad o'r un safbwyntiau sy'n debygol, heb y cadernid i ddeddfu o blaid twf.

1.8. Gwyddom fod y Safonau wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol mewn nifer o feysydd, a chefnogwn parhau â'r drefn, gan gynnwys ei hymestyn i feysydd eraill, yn arbennig felly yn y sector breifat.

1.9. Er bod y Safonau wedi bod yn llafurus yn y cyfnod cynnar, teimlwn bod llawer o botensial i'w wireddu o hyd dan y fframwaith deddfwriaethol presennol. Peryg fyddai disodli'r drefn bresennol mor gynnar yn y dydd – a gyda llawer o'r gwaith fwyaf heriol eisoes wedi'i gyflawni - gyda'r posibilrwydd o greu ansefydlogrwydd a diffyg gweithredu dros gyfnod interim.

1.10. Fodd bynnag, mae'r Safonau mor benodol eu geiriad, fel na ellir dibynnu arnynt i greu 'hawliau' na chyfrifoldebau cyffredinol. Bu i UCAC wynebu'r ddadl gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 nad oedd angen cymalau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg oherwydd bod Safonau yn eu lle. Ar ôl cryn drafod, darbwyllwyd y swyddogion nad oedd y ddadl honno'n dal dŵr am nad oedd pob sefydliad dan sylw yn ddarostyngedig i'r Safonau, ac hyd yn oed yn y sefydliadau perthnasol (megis Awdurdodau Lleol) nid oedd y Safonau a osodwyd yn mynd i gwmpasu'r hyn fyddai ei angen o ran y Ddeddf penodol hon.

## 2. Cynigion Papur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg'.

2.1. Ers Mesur 2011, mae'r cyd-destun polisi mewn perthynas â'r iaith Gymraeg wedi datblygu'n gyflym ac erbyn hyn, mae lefel yr uchelgais (fel y'i nodir yn nogfen 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' a'r Rhaglen Waith 2017-21 sy'n cyd-fynd â hi) ar raddfa llawer uwch. Mae hynny i'w groesawu'n fawr iawn.

2.2. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r cyd-destun polisi mewn perthynas ag addysg yn ogystal wedi (ac yn parhau i) newid ar gyflymder; nodwn 'Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl', 'Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21', Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a'r diwygiadau arfaethedig i'r sector trydyddol fel conglfeini.

2.3. Mae perygl gwirioneddol nad yw'r drefn bresennol o gynllunio ar gyfer addysg Gymraeg yn cydgordio'n ddigonol â'r dirwedd polisi newydd nac â lefel yr uchelgais cytunedig ar gyfer twf.

2.4. Yn ogystal, mae nifer o ymchwiliadau/adolygiadau dros y tair blynedd diwethaf wedi dwyn sylw at ddiffygion a gwendidau'r drefn bresennol o gynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg[1]. Teg yw nodi bod tipyn o orgyffwrdd rhwng y casgliadau.

2.5. Yn sgil yr uchod, mae UCAC o'r farn bod yr amser wedi dod i gymryd y cam nesaf ar y llwybr, gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes, ac yng ngoleuni'r hyn sydd wedi'i nodi'n glir ac yn gyson fel diffygion y system bresennol, er mwyn cefnogi uchelgais ac agenda polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

2.6. Am fod diffygion y drefn bresennol yn niferus, yn ddifrifol, ac yn systemig, ac am fod angen newid gêr yn sylweddol iawn i wireddu polisïau cyfredol Llywodraeth Cymru, mae UCAC yn cefnogi ail-edrych ar y ddeddfwriaeth gynradd mewn perthynas â chynllunio strategol ar gyfer addysg Gymraeg. Yn wir, teimlwn mai **deddfu o'r newydd fyddai orau (Deddf Addysg Gymraeg)** yn hytrach na cheisio cymhwyso addasiadau mor sylweddol i'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Dyna fyddai'r ffordd orau o weithredu'r newidiadau ar y raddfa sydd eu hangen.

2.7. Mae 'Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21' yn nodi'n glir (ac yn gywir, ym marn UCAC) bod angen sicrhau (a) yr arweinyddiaeth ofynnol (b) y capasiti ac (c) y seilwaith os am fwrw'r maen i'r wal. Credwn y byddai deddfu yn profi parodrwydd y Llywodraeth i ymgymryd â'r arweinyddiaeth ofynnol, ac yn ei ganiatáu, i raddau helaeth, i osod y seilwaith a fyddai'n arwain at adeiladu a chynyddu capasiti o fewn y system.

2.8. Byddai deddfu'n caniatáu:

- gosod **rhuglder yn y Gymraeg** fel disgwyliad arferol ('norm') yn y system addysg

---

[1] **Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg** (Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhagfyr 2015)
**Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth/ Llywodraeth Cymru, Mawrth 2016)
**Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol** (Estyn, Medi 2016)
**Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20** (Aled Roberts, Awst 2017)

- rhoi **hawl i addysg cyfrwng Cymraeg**
- gosod **cyfrifoldebau statudol** ar wahanol haenau o'r system i sicrhau nid yn unig cynllunio strategol effeithiol, ond gweithredu bwriadus yn ogystal
- sicrhau **atebolrwydd** priodol ac effeithiol ar bob lefel

2.9. Os mai'r bwriad yw blaenoriaethau Bil y Gymraeg, efallai y dylid ystyried a oes modd/a fyddai'n briodol cynnwys unrhyw elfennau'n ymwneud ag addysg Gymraeg. Buodd pwyslais yn y Papur Gwyn ar gyfrifoldebau cynllunio ieithyddol a allai fod yn berthnasol. Ac mi fyddai'n werth ystyried, os crëir Comisiwn (neu os parheir gydag un Comisiynydd) a fyddai'n briodol rhoi rôl herio/monitro iddo mewn perthynas ag addysg Gymraeg.



**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru